# LABORDY CELF: Celf Ymwrthedd Gwrthficrobaidd

## Y cyfle

'Mae gwrthsefyll ymwrthedd gwrthficrobaidd yn gofyn am atebion creadigol!'

Rhoddwyd cyllid i ymchwilwyr Prifysgol Caerdydd gynnal astudiaeth beilot ar ddefnyddio digwyddiadau celfyddydol a ffilm i gyfleu a chodi ymwybyddiaeth o faterion pwysig ym maes gwyddoniaeth. Mewn partneriaeth â Chaerdydd Creadigol, hoffai'r ymchwilwyr gomisiynu pum ymarferydd creadigol i gynhyrchu darn o waith yr un sy'n archwilio thema ymwrthedd gwrthficrobaidd (AMR).

Bydd y gwaith yn cael ei arddangos fel rhan o'r 'LABORDY CELF: Celf Ymwrthedd Gwrthficrobaidd' yn Chapter yn ystod Gŵyl Wyddoniaeth Caerdydd ym mis Chwefror 2022. Bydd y digwyddiad hwn yn rhad ac am ddim ac mae dwy elfen iddo:

- arddangosfa gelf ar thema AMR a microbioleg sy'n arddangos y pum darn a gomisiynwyd a gwaith celf dethol o gystadleuaeth celf gyhoeddus, a
- dangosiad o raglen ddogfen ar bwnc AMR, yna trafodaeth banel lle gall y gynulleidfa ofyn cwestiynau i ddilyn.

Trwy gyfuno'r celfyddydau a gwyddoniaeth, ein gobaith yw cyflwyno digwyddiad sy'n gwneud i bobl feddwl ond sy'n hygyrch iawn ac yn cynyddu ymwybyddiaeth o AMR.

## Beth yw ymwrthedd gwrthficrobaidd (AMR)?

Mae gwrthficrob yn gyfrwng sy'n lladd micro-organebau neu'n eu hatal rhan tyfu.

Gellir rhannu gwrthficrobau yn ddosbarthiadau gwahanol yn dibynnu ar ba ficrobau y maent yn eu targedu, gan gynnwys gwrthfiotigau (bacteria), cyffuriau gwrthfeirysol (firysau) a chyffuriau gwrthffyngol (ffyngau). Bydd AMR yn digwydd pan fydd micro-organebau'n newid gydag amser ac ni fyddant yn ymateb mwyach i gyfryngau gwrthficrobaidd.

Gall AMR wneud heintiau'n anoddach eu trin, gan gynyddu lledaeniad clefydau, salwch difrifol a marwolaeth (taflen ffeithiau Sefydliad Iechyd y Byd (WHO).

Mae AMR yn broblem gymhleth, wedi'i sbarduno gan lawer o ffactorau cydgysylltiol, sy'n effeithio ar gymdeithas i gyd yn y pen draw. Ceir microbau sy'n gwrthsefyll gwrthficrobau ym mhobman: mewn pobl, anifeiliaid, bwyd, planhigion a'r amgylchedd (dŵr, aer a phridd). Gallant ledaenu o berson i berson neu rhwng pobl ac anifeiliaid, gan gynnwys o fwyd sy'n tarddu o anifeiliaid. Yn wir, mae AMR yn digwydd yn naturiol, ond mae'r camddefnydd a'r gorddefnydd eang o wrthficrobau, ynghyd â ffactorau sbarduno allweddol eraill, wedi cyflymu ei ledaeniad yn fyd-eang; a, chydnabyddir bellach fod AMR yn un o'r 10 bygythiad mwyaf sy'n wynebu'r ddynoliaeth (WHO).

Bydd gwrthsefyll AMR yn gofyn am ymdrech daer gan lawer o wahanol sectorau i leihau'r defnydd o wrthficrobau a datblygu rhai newydd. Fodd bynnag, gall pawb chwarae eu rhan i leihau AMR, trwy ddefnyddio gwrthficrobau'n gyfrifol; gelwir hyn yn 'stiwardiaeth wrthficrobaidd'. Bydd deall sut mae gwrthfiotigau'n gweithio, sut mae ymwrthedd yn dod i'r amlwg, a pha arferion sy'n sbarduno ymwrthedd, yn galluogi pawb i chwarae rhan mewn stiwardiaeth wrthficrobaidd.

**Beth rydym ni'n chwilio amdano?**

Hoffem weithio gyda chi i ddatblygu darnau o waith celf sy'n archwilio problem amlochrog AMR. Efallai y byddwch am ystyried y canlynol:

- Sut mae micro-organebau'n datblygu AMR?
- Sut mae gweithgareddau dynol wedi cyfrannu at AMR?
- Pa asiantau gwrthficrobaidd newydd sy'n cael eu datblygu?
- Sut gallwn ddefnyddio llai o wrthficrobau a hyrwyddo stiwardiaeth wrthficrobaidd?
- Sut bydd AMR yn effeithio ar gymdeithas os na fyddwn yn gweithredu?

Enghreifftiau yw'r rhain, felly peidiwch â gadael iddyn nhw gyfyngu ar eich dychymyg. Os ydych chi'n chwilio am ysbrydoliaeth bellach, mae Anna Dumitriu yn arbenigo mewn BioGelf ac mae ei gwaith yn aml yn archwilio pynciau microbioleg cymhleth. Hefyd, mae Casgliad Wellcome yn cynnal digwyddiadau ac arddangosfeydd sy'n cysylltu gwyddoniaeth, meddygaeth, bywyd a chelf.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am AMR, byddwn yn cynnal sesiwn friffio drwy Zoom ar 26 Tachwedd, rhwng 12:00 a 13:00. Yn ystod y sesiwn hon, bydd ymchwilwyr Prifysgol Caerdydd yn rhannu cyflwyniad byr am AMR ac yn ateb

unrhyw gwestiynau sydd gennych. Nid yw'r sesiwn hon yn orfodol ond os oes gennych ddiddordeb ynddi, cofrestrwch yma.

Rydym ni'n croesawu ceisiadau gan amrywiaeth o ymarferwyr creadigol sy'n gweithio mewn gwahanol ddisgyblaethau, ieithoedd a chyfryngau celfyddydol. Rhaid i'r gwaith fod yn addas i'w arddangos yng ngofod arddangos Chapter drwy gydol yr arddangosfa gelf (19-22 Chwefror 2022). Bydd yr arddangosfa gelf yn cael ei chynnal yn ystafelloedd y man cyntaf a/neu'r pwynt cyfryngau ac mae ganddynt offer taflunio (y ddwy ystafell) a sgrin (y man cyntaf). Gofynnwn i chi ystyried y bydd cynulleidfa eang yn gweld y gwaith ac ni fyddem am unrhyw gynnwys graffig a allai wneud i bobl deimlo'n anghyfforddus, er enghraifft, delweddau o heintiau i glwyfau.

Mae'r prosiect hwn yn agored i ymarferwyr creadigol hunangyflogedig yn unig.

**Y gyllideb**

Mae gennym gyllideb o £500 i bob ymarferydd, sy'n cynnwys ffi, deunyddiau a threuliau.

Byddwn yn darparu cymorth ychwanegol (e.e. mynediad) lle bo'r angen er mwyn i chi allu cymryd rhan yn y cyfle hwn.

**Y broses**

Bydd y bobl greadigol a gomisiynir yn gweithio'n unigol ond byddant hefyd yn cael cyfle i drafod eu syniadau gydag ymchwilwyr ym Mhrifysgol Caerdydd sy'n gweithio ar AMR. Os yw hyn o ddiddordeb, byddwn yn cynnal cyfarfod (drwy Zoom) yn yr wythnos sy'n dechrau ar 3 Ionawr 2022 i gysylltu pobl greadigol ag ymchwilwyr. Os dymunant, gall pobl greadigol hefyd ymweld â'r grwpiau ymchwil ym Mhrifysgol Caerdydd er mwyn gweld yr ymchwil sy'n cael ei chynnal i ddeall a gwrthsefyll problem AMR.

Ar ddiwedd y prosiect, hoffem i'r bobl greadigol roi adborth am eu profiad o weithio gyda thîm LABORDY CELF i'n helpu i fesur effaith y prosiect.

**Cynulleidfa a rhannu**

Y brif gynulleidfa fydd y rhai sy'n dod i’r arddangosfa gelf wyneb yn wyneb yn Chapter ym mis Chwefror 2022.

Bydd delwedd ddigidol o'r gwaith hefyd yn cael ei harddangos ar wefan LABORDY CELF ynghyd â disgrifiad byr am y darn, wedi'i ysgrifennu gan y person creadigol.

Bydd y bobl greadigol a gomisiynir yn cadw hawlfraint y gwaith y maent yn ei greu, ond byddant yn cytuno i roi trwydded anfasnachol, heb fod yn gyfyngedig, i Brifysgol Caerdydd ddefnyddio'r darnau am byth ar gyfer prosiect y ‘LABORDY CELF: Celf Ymwrthedd Gwrthficrobaidd’. Bydd defnydd anfasnachol o'r darnau yn cynnwys hyrwyddo'r prosiect ar ein gwefan/cyfryngau cymdeithasol (delweddau digidol o'r darnau) ac ailddefnyddio'r darnau gwreiddiol os cynhelir yr arddangosfa eto mewn lleoliad gwahanol. Hefyd, hoffem ddefnyddio delweddau digidol o'r gwaith yn ein hadroddiadau ar brosiect y LABORDY CELF ac i ddangos tystiolaeth o'r gwaith ymgysylltu y mae Prifysgol Caerdydd yn ei wneud. Bydd y bobl greadigol yn cael eu cydnabod lle bynnag y rhennir y gwaith.

**Amserlen**

Ceisiadau yn agor: 12:00 17 Tachwedd 2021

Sesiwn friffio (a gynhelir drwy Zoom): 12:00-13:00 26 Tachwedd 2021

Ceisiadau yn cau: 12:00 6 Rhagfyr 2021

Cyfarfod y panel adolygu ceisiadau: 14 Rhagfyr 2021

Hysbysu’r ymgeiswyr llwyddiannus: 16 Rhagfyr 2021

Dechrau’r gwaith: 3 Ionawr 2022

Cwblhau’r gwaith erbyn: 7 Chwefror 2022

Arddangosfa: 19-22 Chwefror 2022

**Gwneud Cais**

1. Llenwch y ffurflen gais fer
2. Rhowch enghreifftiau o'ch gwaith blaenorol

Anfonwch eich ffurflen gais wedi'i llenwi ac enghreifftiau o'ch gwaith blaenorol at weiserr@cardiff.ac.uk.

Bydd yr ymarferwyr yn cael eu dewis gan banel penderfynu sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Gaerdydd Creadigol ac ymchwilwyr a staff o Brifysgol Caerdydd.

Rydym ni'n croesawu’n arbennig geisiadau gan bobl greadigol sy'n gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg neu ieithoedd eraill. Rydym wedi ymrwymo i gefnogi mwy o bobl greadigol sydd o gefndir a/neu hunaniaeth wedi’i thangynrychioli. Ymhlith eraill, mae’r rhain yn cynnwys pobl greadigol o gefndiroedd Du, Asiaidd ac ethnig amrywiol, pobl greadigol o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is, pobl greadigol B/byddar, pobl greadigol niwroamrywiol, pobl greadigol ag anableddau neu anawsterau iechyd tymor hir a phobl greadigol â hunaniaethau LGBTQIA+.

Cysylltwch â ni trwy’r e-bost os oes gennych unrhyw gwestiynau am eich syniad, am AMR neu os hoffech gael unrhyw gymorth gyda'ch cais.